ATHRONIAETH

Ar ôl graddio mewn Athroniaeth, fel arfer bydd gennych:

- Y gallu i ddadansoddi problemau mewn ffordd aml-ddimensiwn.
- Y gallu i feddwl yn greadigol, yn hunanfeirniadol ac yn annibynnol.
- Hunan-gymhelliant.
- Y gallu i weithio'n annibynnol.
- Sgiliau rheoli amser a blaenoriaethau.
- Meddwl hyblyg y gellir ei addasu i reoli newid.

Cipolwg ar Athroniaeth

Mae Athroniaeth yn ceisio deall a chwestiynu syniadau'n ymwneud â realaeth, gwerth a phrofiad. Mae cysyniadau fel bodolaeth, rheswm a gwirionedd yn digwydd ym mhob cylch o ymholi gan ddyn. Mae Athroniaeth yn benagored, yn cwestiynu ac yn adnewyddu ei hun yn gyson, sef hanfod dysg a gwybodaeth. Mae gradd mewn pynciau galwedigaethol fel Busnes, Cyllid, y Gyfraith, Marchnata neu Astudiaethau'r Cyfryngau yn rhoi sgiliau uniongyrchol ac offer ymarferol ar gyfer cael mynediad i'r farchnad gyflogaeth, tra bod Athroniaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r amgylchedd delfrydol i ddatblygu'r priodweddau sylfaenol a hanfodol y mae'r sgiliau hyn yn dibynnu arnynt.

Mae Athroniaeth yn eich addysgu sut i ddadansoddi a chyfleu syniadau mewn modd clir a rhesymegol a gynllunnir yn ofalus. Mae graddedigion Athroniaeth yn dysgu datblygu ac amddiffyn safbwynt, sut i ddysgu a sut i feddwl. Gyda sylfaen drwyadl felly, mae graddedigion athroniaeth yn debygol o ddatblygu yn weithwyr cyflawn, aeddfed a huawdl.

Mae astudio rhesymeg ffurfiol yn cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu sgiliau mewn trin symbolau, systemau ffurfiol a meddwl yn haniaethol, ac mae'n dylanwadu hefyd ar sgiliau ehangach dadansoddi a dealltwriaeth fanwl o strwythur dadl. Mae'r sgiliau hyn o werth uniongyrchol mewn gyrfaoedd sy'n ymwneud â chyfrifiaduron a rheoli gwybodaeth ac ym mhob cyd-destun lle mae manwl gywirdeb, eglurder a chynllunio a dadansoddi haniaethol lefel uchel yn ofynion. Mae graddedigion athroniaeth wedi datblygu sgiliau cyffredinol fel y gallu i feddwl yn rhesymegol, dadansoddi'n feirniadol, cyfathrebu'n groyw ac yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dyma'r sgiliau sy'n bwysig iawn i gyflogwyr ar gyfer swyddi rheolaeth ganol ac arweinyddiaeth. Bydd gwerth ychwanegol ar sgiliau gweledigaeth, creadigrwydd a phŵer dadansoddol sy'n cael eu datblygu drwy astudio Athroniaeth.

Sources: